Ymddiriedolaeth Natur
**Gogledd Cymru**
**North Wales**
Wildlife Trust



# Dod â Natur yn Ôl

## Strategaeth Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru

# 2030

© CATHY LEWIS




© ALEXANDER MUSTARD 2020VISION

# Gweithredu Lleol. Effaith ar y Cyd. Newid Byd-eang.

**Rydyn ni'n credu bod byd natur yn rhan annatod o'n bywydau, ac rydyn ni'n dathlu ei werth cynhenid. Mae pobl yn rhan o fyd natur ac mae pob bywyd ar y ddaear yn gyd-ddibynnol ar ei gilydd. Mae popeth y mae dynoliaeth yn ei werthfawrogi yn dod o fyd natur ac mae popeth mae cymdeithas yn ei wneud yn effeithio ar fywyd gwyllt.**

### Mae Byd Natur mewn Argyfwng

Mae mwy na 60% o holl fioamrywiaeth y blaned wedi'i golli ers 1970. Heddiw, mae 17% o rywogaethau Cymru yn wynebu difodiant ac mae dyfodol bywyd gwyllt a oedd unwaith yn gyffredin yn ansicr. Yng Nghymru gyfan, mae 666 o rywogaethau yn prinhau ac mae 73 o rywogaethau wedi diflannu ers y 1970au. Mae'n hanfodol helpu byd natur i adfer nawr.

### Dod â Bywyd Gwyllt yn Ôl

Bydd atal colli byd natur a dod â bywyd gwyllt yn ôl yn gofyn am weithredu digynsail gan bobl o bob oedran ac o bob cefndir.

Rhaid i ni sicrhau bod yr argyfwng ecolegol yn cael ei gydnabod yn llawn, a bod datrysiadau sy'n seiliedig ar natur i newid yn yr hinsawdd yn cael eu deall ac yn cael buddsoddiad priodol. Rhaid i gamau a gymerir i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd alluogi adferiad byd natur hefyd; tra bo adferiad byd natur yn hanfodol ar gyfer mynd i'r afael â newid hinsawdd. Ni all cymdeithas ddatrys un argyfwng heb fynd i'r afael â'r llall.

Bydd Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn ymuno ag eraill ym mudiad yr Ymddiriedolaethau Natur i gymryd camau mwy beiddgar ar gyfer adferiad brys byd natur a bod yn llais cadarn a digyfaddawd dros fywyd gwyllt.

### Galw i Weithredu

Ni fydd pobl yn mynd ati i ddiogelu pethau nad ydynt yn poeni amdanynt, ac ni fydd pobl yn poeni am y pethau nad ydynt erioed wedi'u profi. Ein hamcan ni yw galluogi pawb i brofi natur, ac fe fyddwn ni i gyd yn ymladd i ddiogelu byd natur.

*Dyma ein cyfraniad unigryw: gweithredu yn lleol, meithrin effaith ar y cyd, fel rhan o stori fyd-eang.*

### Brys o'r Newydd

Y strategaeth hon yw ein hymateb ni i'r argyfyngau ecolegol a hinsawdd. Mae angen i ni weithio mewn ffyrdd newydd, a bod yn llais clir, diymddiheuriad a beiddgar dros adferiad byd natur yng Ngogledd Cymru.

Mae ein strategaeth yn adeiladu ar y gwaith rydyn ni eisoes yn ei wneud i sicrhau ein bod yn cael yr effaith fwyaf posibl. Fel mater o frys, rhaid i ni flaenoriaethu'r hyn sydd angen ei wneud i ddiogelu dyfodol i fywyd gwyllt Gogledd Cymru, a fydd, yn ei dro, yn cefnogi cymdeithas a'r economi.

**Frances Cattanach**, Prif Weithredwr
*Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru*

**Howard Davies**, Cadeirydd
*Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru*





© TOM MARSHALL

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
Llys Garth, Ffordd Garth, Bangor,
Gwynedd, LL57 2RT

www.northwaleswildlifetrust.org.uk
info@northwaleswildlifetrust.org.uk
01248 351 541

Rhif Elusen Gofrestredig 230772
Rhif Cwmni 773995

Dilynwch ni

- northwaleswildlifetrust
- @North_Wales_WT
- @northwaleswildlifetrust
- NorthWalesWildlifeTrust

**Ein gweledigaeth** ni yw byd naturiol ffyniannus, gyda bywyd gwyllt a chynefinoedd naturiol yn chwarae rhan werthfawr wrth fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd ac ecolegol, a phobl wedi'u hysbrydoli a'u grymuso i weithredu dros fyd natur.

**Ein pwrpas** ni yw dod â bywyd gwyllt yn ôl, grymuso pobl i weithredu dros fyd natur, a chreu cymdeithas lle mae byd natur o bwys.



© VAUGHN MATTHEWS







## Ein Nodau Strategol

Mae ein tri nod strategol yn nodi'r hyn rydym yn credu sydd angen digwydd erbyn 2030 er mwyn gwireddu ein gweledigaeth tymor hwy

1. Mae byd natur yng Ngogledd Cymru yn adfer, gyda bywyd gwyllt toreithiog ac amrywiol a phrosesau naturiol yn creu tir a môr gwylltach lle mae pobl a natur yn ffynnu
2. Mae pobl yng Ngogledd Cymru yn gweithredu dros fyd natur a'r hinsawdd, gan arwain at well penderfyniadau ar gyfer yr amgylchedd
3. Mae byd natur yn chwarae rhan ganolog, werthfawr wrth helpu i fynd i'r afael â phroblemau lleol a byd-eang

## Ein Trawsnewid Strategol

Mae ein pum trawsnewid yn ein galluoedd yn hanfodol os ydym am gyflawni ein nodau strategol

1. Ysbrydoli cymunedau i drefnu a symud, yn enwedig ymhlith pobl ifanc
2. Mynd drwy drawsnewid digidol 'gwraidd a changen'
3. Cyflawni newid sylweddol yn y cyllid ar gyfer adferiad byd natur
4. Creu partneriaethau newydd i sbarduno adferiad byd natur
5. Cynyddu ein gallu i wrthsefyll gweithgarwch anghynaliadwy yn yr amgylchedd morol




*Bydd Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru ar flaen y gad yn yr ymdrechion i wyrdroi'r dirywiad mewn byd natur, ar y tir ac yn y môr.*

# Natur mewn adferiad

**Mae ymchwilwyr, cadwraethwyr a llunwyr polisïau, fel ei gilydd, yn cydnabod, er mwyn creu rhwydwaith ecolegol cydlynol a gwydn, bod angen mwy o le ar gyfer byd natur, gofod mwy, gwell ac unedig.**

Ar hyn o bryd, mae 20.6% o dir Gogledd Cymru wedi'i ddynodi'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ac mae 69% o foroedd Cymru yn Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Mae dynodiadau'n hanfodol i warchod ein bywyd gwyllt mwyaf bregus ni ond rhaid eu rheoli'n weithredol er mwyn cyflawni statws cadwraeth ffafriol.

Ein nod ni yw i o leiaf 30% o dir Cymru gael ei ddiogelu, ei gysylltu a'i reoli'n gadarnhaol ar gyfer byd natur. Ein nod ni ar gyfer adferiad ein moroedd yw ceisio dull sy'n seiliedig ar ecosystemau o weithredu i feithrin gwydnwch yn erbyn pwysau cynyddol. Dim ond Ardaloedd Morol Gwarchodedig sy'n adfer fydd yn rhan o'r targed o 30%.

Byddwn yn gosod byd natur yn *gadarn* mewn adferiad drwy **wneud mwy o le i natur** a diogelu a chysylltu cynefinoedd ar raddfa tirwedd, **adfer helaethrwydd byd natur, a gwella iechyd ecosystemau** (drwy, er enghraifft, sicrhau bod ein gwlybdiroedd yn wlyb ac ailgyflwyno rhywogaethau allweddol sydd ar goll).

**HEDDIW**


Mae 17% o rywogaethau Cymru yn wynebu difodiant ac mae dyfodol bywyd gwyllt a oedd unwaith yn gyffredin yn ansicr

**EIN MESURAU EFFAITH**

**Erbyn 2030, bydd o leiaf 30% o dir a môr Gogledd Cymru yn cael eu rheoli'n weithredol ar gyfer adferiad byd natur**

**Erbyn 2030, bydd cyfoeth ac amrywiaeth bywyd gwyllt Gogledd Cymru yn cynyddu'n sylweddol**

**Erbyn 2030, bydd prosesau naturiol a systemau ecolegol Gogledd Cymru yn fwy cyflawn, yn fwy cysylltiedig ac yn gweithredu'n llawer gwell**




Rydym yn gweithio ar raddfa'r dirwedd gyda thirddeiliaid, busnesau, sefydliadau ac unigolion i greu, gwella a chysylltu cynefinoedd yng Ngogledd Cymru.

## NOD 1

**2030**

Byd natur yng Ngogledd Cymru yn gwella, gyda bywyd gwyllt toreithiog ac amrywiol a phrosesau naturiol yn creu tir a môr gwylltach lle mae pobl a natur yn ffynnu

N2



© PRIYASH VASAVA ON UNSPLASH

# Gweithredu ystyrlon

**Pobl yw'r allwedd i adferiad byd natur. Mae angen natur ar gymdeithas ond eto rydym wedi ein datgysylltu fwyfwy oddi wrth ein hamgylchedd naturiol. Fel y dywedodd Syr David Attenborough, "No one will protect what they don't care about; and no one will care about what they have never experienced."**

Mae llawer o bobl yn methu cael mynediad i lefydd gwyllt yn agos at eu cartrefi. Yn rhy aml, mae hyn yn gysylltiedig â phroblemau sylfaenol mewn cymdeithas fel gwahaniaethu, braint neu ormes. Rhaid i sector yr amgylchedd wneud mwy i oresgyn hyn.

Yn y cyfamser, mae rhai sectorau o'r gymdeithas mewn mwy o berygl nag eraill oherwydd effeithiau heriau byd-eang - yn enwedig pobl ifanc, a fydd yn teimlo effeithiau'r argyfyngau hinsawdd ac ecolegol fwyaf yn ystod eu hoes, a phobl o gefndiroedd difreintiedig. Ar gyfer y grwpiau hyn, mae materion yn ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol wedi'u hymgorffori o fewn materion hinsawdd ac ecolegol ehangach.

Bydd Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn gweithio i ddeall y rhwystrau sy'n bodoli rhwng unigolion, cymunedau a byd natur; gan geisio grymuso pobl o bob hunaniaeth, diwylliant, cefndir a gallu i werthfawrogi, mwynhau, codi llais a gweithredu dros fywyd gwyllt. Byddwn yn cysylltu pobl â mannau naturiol ac yn meithrin eu hymdeimlad o berthyn iddynt drwy ymgysylltu â'r gymuned yn well a chreu mannau gwyllt diogel, cynhwysol yn agos at ble mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn chwarae.

Byddwn yn gwrando ar ein cefnogwyr, **yn cysylltu pobl â'i gilydd ac yn eu grymuso i greu newid gwirioneddol**, fel ein bod yn gallu **newid ymddygiad a sbarduno gwell penderfyniadau ar gyfer byd natur** ar draws y byd gwleidyddol a chorfforaethol, ar lefel leol a chenedlaethol.

*Bydd Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn gweithio i ymgysylltu a grymuso pobl o bob oedran, hunaniaeth, diwylliant, cefndir a gallu, gan eu cefnogi i werthfawrogi, mwynhau, siarad a gweithredu dros fywyd gwyllt.*

**HEDDIW**

Mae llawer o bobl yn methu cael mynediad i lefydd gwyllt yn agos at eu cartrefi.

**EIN MESURAU EFFAITH**

**Erbyn 2030, byddwn yn ysbrydoli ac yn grymuso llawer mwy o unigolion a chymunedau i gymryd camau ystyrlon i sbarduno adferiad byd natur**

**Erbyn 2030, bydd grŵp mwy amrywiol o bobl a chymunedau yng Ngogledd Cymru yn cymryd camau ystyrlon ar gyfer adferiad byd natur**




© NWT LIN CUMMINS

**2030**

Mae pobl yng Ngogledd Cymru yn gweithredu dros fyd natur a'r hinsawdd, gan arwain at well penderfyniadau ar gyfer yr amgylchedd

NOD 2

N3



# Datrysiadau seiliedig ar fyd natur

**Yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang, mae dynoliaeth yn wynebu heriau niferus yn sgil cwymp systemau naturiol a hinsawdd fyd-eang sy'n cynhesu. Mae tystiolaeth hefyd o ddirywiad amlwg yn lles corfforol a meddyliol rhai segmentau o'r boblogaeth ehangach.**

Ni fydd dynoliaeth yn gallu mynd i'r afael â'r problemau hyn oni bai fod cymdeithas yn gadael i fyd natur helpu. Gall datrysiadau hinsawdd naturiol ddarparu tua thraean o'r mesurau lliniaru hinsawdd cost-effeithiol sydd eu hangen rhwng nawr a 2030 i sefydlogi'r cynhesu i lai na 2°C tra hefyd yn mynd i'r afael â'r argyfwng ecolegol ar yr un pryd.

Fodd bynnag, yn rhy aml o lawer, nid yw'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn ymwybodol nac yn llwyr werthfawrogi'r rôl y gallai ac y dylai natur fod yn ei chwarae wrth helpu cymdeithas i fynd i'r afael â'r heriau hyn a sbarduno newid cadarnhaol. Nid yw systemau naturiol sydd wedi'u diraddio a'u hecsbloetio yn gallu darparu'r datrysiadau seiliedig ar natur sy'n rhan mor fawr o'r ateb, ac nid yw pobl a chymunedau sydd wedi'u datgysylltu oddi wrth natur yn gallu cael mynediad llawn a gwerthfawrogi'r ystod eang o fuddion y gall byd natur eu cyflwyno i'n bywydau ni.

Bydd Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, gan weithio mewn partneriaeth ag eraill, yn adfer ein hecosystemau naturiol ar raddfa ac yn dangos yr hyn sy'n bosibl, fel bod cynefinoedd naturiol yn gallu dal a storio carbon, helpu i atal llifogydd, lleihau erydiad pridd, gwella ffrwythlondeb pridd, darparu gwasanaethau peillio, caniatáu i fyd natur adfer yn y môr a chefnogi gwelliannau i les corfforol a meddyliol pobl.

Drwy fudiad yr Ymddiriedolaethau Natur, byddwn yn defnyddio ein llais ar y cyd i eiriol dros sut – fel cymdeithas – y gallem ac y dylem fod yn defnyddio **datrysiadau sy'n seiliedig ar natur** i helpu i fynd i'r afael â heriau niferus a sbarduno newid byd-eang cadarnhaol.

Yn olaf, fel perchennog tir allweddol, defnyddiwr ynni, defnyddiwr dŵr, trefnydd digwyddiadau, gweithredwr fflyd o gerbydau, addysgwr, adwerthwr ac ymgynghoriaeth, rydym yn cydnabod bod angen i ni **arwain drwy esiampl** o ran sut rydym yn rheoli ein heffeithiau amgylcheddol a chymunedol ein hunain.

HEDDIW

Mae dynoliaeth yn wynebu heriau niferus oherwydd cwymp systemau naturiol a hinsawdd fyd-eang sy'n cynhesu.

EIN MESURAU EFFAITH

**Erbyn 2030, bydd byd natur yng Ngogledd Cymru yn chwarae rhan fwy arwyddocaol wrth wella iechyd a lles pobl**

**Erbyn 2030, bydd byd natur yng Ngogledd Cymru yn chwarae rhan fwy arwyddocaol yn y gwaith o wella ymdrechion lliniaru ac addasu'r hinsawdd**

**Erbyn 2030, bydd byd natur yng Ngogledd Cymru yn chwarae rhan fwy arwyddocaol mewn cynyddu diogelwch bwyd**

*Gall cynefinoedd naturiol ddal a storio carbon, helpu i atal llifogydd, lleihau erydiad pridd, gwella ffrwythlondeb pridd, darparu gwasanaethau peillio, caniatáu adferiad byd natur yn y môr, a chefnogi gwelliannau i les corfforol a meddyliol pobl.*



© CHRIS ROBBINS

NOD 3

2030

## Mae byd natur yn chwarae rhan ganolog a gwerthfawr wrth helpu i fynd i'r afael â phroblemau lleol a byd-eang.

Mae Prosiect Afancod Cymru wedi bod yn gweithio i drefnu ailgyflwyno afancod Ewrasiaidd i Gymru ers 2005. Mae eu hymddygiad naturiol yn adfer ac yn cynnal ecosystemau afonydd a gwlybdiroedd.

# Ein Trawsnewid Strategol

Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru wedi nodi pum Trawsnewid yn ein galluoedd sy'n hanfodol i gyflawni ein Nodau Strategol. Gyda'i gilydd, byddant nid yn unig yn ein helpu i gyflawni ein nodau ar gyfer 2030 ond hefyd yn arwain at sefydliad cadarnach a mwy effeithiol ar gyfer y tymor hwy.








## Trawsnewid 1: **Ysbrydoli cymunedau i drefnu a symud, yn enwedig ymhlith pobl ifanc**

Rydyn ni'n gwybod, os yw byd natur i gael ei adfer ar raddfa fawr, mae angen llawer mwy o bobl arnom ni ar ochr natur – a gall Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, sydd wedi'i gwreiddio mewn cymunedau lleol, fod yn hwylusydd effeithiol ac ysbrydoledig ar gyfer newid.

Mae gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru rwydwaith ymroddedig o wirfoddolwyr brwd sy'n hanfodol i'n gwaith ni. Byddwn yn parhau i gofleidio'r gweithgarwch maent yn ei wneud a hefyd yn ehangu ein cwmpas i'r llu o bobl yn ein cymunedau sy'n ceisio symud mewn ffordd wahanol ar gyfer byd gwell i fyd natur.

Rydym yn ymrwymo i ailddychmygu gwirfoddoli a gweithredu cymunedol; i ddod yn fwy agored a chynhwysol; ac i gael ein harwain gan ein cefnogwyr. Bydd angen i ni ehangu ein sgiliau y tu hwnt i fod yn rheolwyr gwirfoddolwyr a gweithio mwy fel hwyluswyr cymunedol: gan alluogi, ysbrydoli a bod yn gatalydd i grŵp newydd o drefnwyr cymunedol ac ymgyrchwyr.

## Trawsnewid 2: **Mynd drwy drawsnewid digidol 'gwraidd a changen'**

Mae datblygiad cyflym technolegau digidol yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn cyflwyno cyfleoedd digynsail i gynyddu effaith ein gwaith; mabwysiadu dulliau arloesol o weithredu gyda heriau newydd a phresennol; ac ehangu a gwella ein hymgysylltu. Mae'r datblygiadau hyn wedi chwyldroi union natur 'cymuned', ac mae'r ffordd mae pobl yn cysylltu, yn trefnu ac yn symud i sicrhau newid yn esblygu'n barhaus.

Er mwyn cyflawni ein strategaeth a meithrin ein gwytnwch i dirwedd ddigidol allanol sy'n newid, bydd angen i ni drawsnewid ein systemau a'n seilwaith digidol presennol, a chynyddu gallu Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru i storio a thrin data. Bydd hyn yn gofyn am hyfforddiant i ddatblygu sgiliau a galluoedd digidol ein staff a'n gwirfoddolwyr; yn ogystal â mynd i'r afael â'r risgiau sy'n dod i'r amlwg mewn meysydd fel moeseg data, mynediad, diogelu a hawliau, a diogelwch gwybodaeth.

## Trawsnewid 3: **Cyflawni newid sylweddol yn y cyllid ar gyfer adferiad byd natur**

Mae cymhlethdod a chwmpas cyflawni ein gweledigaeth yn fwy nawr nag y bu erioed, oherwydd graddfa a brys yr argyfyngau hinsawdd ac ecolegol, a'i berthnasedd i fywydau a bywoliaeth pobl. Felly, er mwyn cyflawni ein strategaeth bydd angen newid sylweddol yng ngraddfa ac amrywiaeth y cyllid sydd ar gael ar gyfer adferiad byd natur.

Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn bodoli diolch i'r sylfaen ariannu gadarn sy'n cael ei darparu gan ein haelodau ffyddlon, sydd bellach yn fwy na 9,000. Mae hyn wedi'i adeiladu'n raddol drwy ein gweithgareddau codi arian a marchnata lleol, dull o weithredu a fydd bob amser yn allweddol i'n cryfder a'n nodweddion unigryw.

Fodd bynnag, rhaid rhoi blaenoriaeth hefyd i ehangu ffynonellau posibl eraill o incwm digyfyngiad. Bydd angen i ni edrych ar bartneriaethau a modelau busnes newydd, ffyrdd newydd o weithio a ffynonellau eraill o gyfalaf a chyllid – a'r cyfan gan ddiogelu ein hannibyniaeth a'n hintegriti.

## Trawsnewid 4: **Creu partneriaethau newydd i sbarduno adferiad byd natur**

Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn rheoli cyfran fechan o'r tir sydd ei angen i gefnogi adferiad byd natur yn uniongyrchol. Mae ein hardal yn cwmpasu 615,100h Ha – ond dim ond 790 Ha (0.13%) rydym yn ei reoli. Yn y cyfamser, mae tua 82% o dir Cymru yn cael ei ddosbarthu fel tir amaethyddol, sy'n golygu mai dim ond drwy newid sylweddol yn ein dylanwad ar sut mae tir amaethyddol yn cael ei reoli y gellir adfer byd natur.

Er mwyn cyflawni ein strategaeth, bydd angen i ni ymgysylltu ag ystod ehangach a mwy amrywiol o bartneriaid ac actorion yn ein cymunedau ac ar draws ffiniau gweinyddol, gan gofleidio dulliau cydweithredol aml-randdeiliad o weithredu i fynd i'r afael ag achosion cyffredin a chreu mwy o effaith. Bydd hyn yn golygu agor ein hunain i fwy o gysylltiadau a phartneriaethau trawsnewid sy'n blaenoriaethu gweithredu ar y cyd a datrys problemau ar y cyd, gan gynnwys y rhai y tu allan i'r sector cadwraeth traddodiadol, prif ffrwd.

## Trawsnewid 5: **Cynyddu ein gallu i wrthsefyll gweithgarwch anghynaliadwy yn yr amgylchedd morol**

Mae angen cynyddol am feithrin gwytnwch yr ecosystem forol yng Nghymru drwy adfer cynefinoedd, dal a storio cymaint â phosib o garbon a chwblhau rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig sy'n gydlynol yn ecolegol ac wedi'i reoli'n dda.

Mae'r galw ar ein moroedd am adnoddau yn ynni yn cynyddu, ac mae Gogledd Cymru wedi'i nodi fel ardal allweddol ar gyfer llawer o brosiectau ynni adnewyddadwy yn y môr. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r dyfeisiau presennol ar arfaethedig wedi'u lleoli mewn mannau problemus o ran bioamrywiaeth – gan gynnwys y dyfroedd llawn maethynnau sy'n denu llawer o'r prif ysglyfaethwyr y mae Cymru'n falch o'u cartrefu.

Er mwyn cyflawni ein strategaeth mae'n rhaid i ni sicrhau bod ein moroedd yn cael eu rheoli i adfer ar ôl difrod, tarfu ac esgeulustod yn y gorffennol a sicrhau bod effaith y datblygiadau yn y môr yn y dyfodol yn cael ei lleihau. I wneud hynny, mae'n rhaid i ni flaenoriaethu ymgysylltu â datblygwyr, llunwyr polisïau a chymunedau a dylanwadu arnynt o gamau cynnar datblygiad eu prosiectau.



© PETER CAIRNS 2020VISION

*Mae gan fywyd gwyllt werth cynhenid, gan ddod â lliw, harddwch a rhyfeddod i'n bywydau ni i gyd*

# *Darganfod* Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru



## Pwy ydym ni

Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn fudiad ar lawr gwlad o bobl o ystod eang o gefndiroedd sy'n credu bod arnom ni angen byd natur a bod byd natur ein hangen ni.

Sefydlwyd yr Ymddiriedolaeth ym mis Hydref 1963 a'r sbardun oedd y bygythiad i droi'r safle sydd bellach yn Warchodfa Natur Genedlaethol Cors Goch yn domen ddinesig. Rydyn ni wedi tyfu'n raddol o fod yn elusen oedd yn cael ei staffio gan wirfoddolwyr yn unig i fod yn elusen sy'n cyflogi mwy na 50 o staff.

Rydyn ni'n gwasanaethu ardaloedd Gogledd Cymru sy'n cael eu llywodraethu gan awdurdodau unedol Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam: poblogaeth o bron i 700,000.

## Ein dull o weithredu

Rydyn ni'n uchelgeisiol yn ein dyhead nid yn unig i arafu ond i wyrdroi'r dirywiad mewn natur. Rydyn ni'n siarad â llais beiddgar a hyderus, i ddweud y gwir am gyflwr byd natur a'r hyn sydd angen ei wneud i'w roi mewn adferiad.

Fel rhan o fudiad ar lawr gwlad, rydyn ni wedi'n gwreiddio'n gadarn yn ein cymunedau lleol lle'r ydym yn gofalu am lefydd gwyllt, gan gynyddu dealltwriaeth pobl o'r byd naturiol a'r cysylltiad ag ef, ar y tir ac yn y môr.

Rydyn ni eisiau sefydlu achos cyffredin a gweithio mewn partneriaeth ag eraill, i ddatblygu ffyrdd newydd, arloesol o wneud yr hyn sy'n iawn i fyd natur a sicrhau effaith i gefnogi ein gweledigaeth.

Rydyn ni'n arddangos yr hyn sy'n bosibl, ac yn ysbrydoli, yn grymuso ac yn galluogi pobl o bob cefndir, diwylliant, hunaniaeth a gallu i wireddu ein gweledigaeth gyda ni, gan gofleidio amrywiaeth ein cymdeithas i newid byd natur er gwell.



## Ein gwerthoedd a'n credoau

**Mae gwaith Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru wedi'i seilio ar y gwerthoedd a'r credoau sylfaenol a ganlyn.**

**Hoffter o Natur**

Mae ein hoffter a'n parch ni at werth cynhenid byd natur yn rhan greiddiol o'n tîm medrus, llawn cymhelliant ac ymroddedig. Byddwn bob amser yn sicrhau bod ein gwaith a'n partneriaethau'n cael eu llywio gan yr hyn sy'n iawn i fyd natur.

**Arloesi dan arweiniad Tystiolaeth**

Rydyn ni'n gweithredu yn seiliedig ar dystiolaeth a thrwy ganolbwyntio ar ddatrysiadau, gan weithio gyda phartneriaid a chymunedau i chwilio am ddatrysiadau arloesol i sicrhau'r cyfraniad a'r effaith orau bosib ar gyfer natur.

**Brwdfrydedd**


Mae angerdd llawn ffocws yn ein llywio ni i fod mewn sefyllfa unigryw i sicrhau'r effaith fwyaf ar gyfer bywyd gwyllt, gan ein galluogi i weithio'n frwdfrydig gyda phwrpas a ffocws.

**Integriti**

Rydyn ni wedi ymrwymo i dryloywder a chynhwysiant yn ein gweithredoedd a'n prosiectau, gan gydgynllunio gyda phartneriaid i sicrhau'r effaith fwyaf ar gyfer byd natur. Byddwn bob amser yn cynnal ein gwerthoedd a'n credoau ac yn siarad gwirionedd wrth rym.

**Parch**

Rydyn ni'n gweithio gyda pharch at fyd natur, parch at bobl, a pharch at amrywiaeth. Rydyn ni'n gweithio ar y cyd ac yn hyrwyddo cynhwysiant ac amrywiaeth yn ein cymunedau, gan fod yn sensitif i'r lleol a hefyd sicrhau ein bod yn cael effaith y tu hwnt i'n ffiniau.





## Yr Ymddiriedolaethau Natur

Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn aelod corfforaethol o Gymdeithas Frenhinol yr Ymddiriedolaethau Natur (RSWT): elusen gofrestredig ar ei liwt ei hun, a sefydlwyd yn 1912, ac un o aelodau sefydlu IUCN – yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur.

Mae 46 o Ymddiriedolaethau Natur unigol ledled y DU a Dibyniaethau'r Goron, pob un yn elusen annibynnol seiliedig ar le gyda'i hunaniaeth gyfreithiol ei hun, a ffurfiwyd wrth i grwpiau o bobl ddod at ei gilydd a gweithio gydag eraill i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywyd gwyllt a chenedlaethau'r dyfodol, gan ddechrau lle maent yn byw ac yn gweithio.

Gyda'i gilydd, yr enw ar y ffederasiwn yma o 47 o elusennau yw Yr Ymddiriedolaethau Natur.

## Gyda'n gilydd, rydyn ni'n gryfach



**870,000**
**o aelodau**



**35,000**
**o wirfoddolwyr**



**2,000 o staff**



**600**
**o ymddiriedolwyr**

